


# Ein hadroddiad effaith

**Ebrill 2023 i Mawrth 2024**

www.chwarae.cymru

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

© Chwarae Cymru

Mai 2025

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad y Cadeirydd | 4 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwr | 5 |
| Am Chwarae Cymru | 7 |
| Crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd 2023-2024 | 8 |
| Gweithwyr proffesiynol hyddysg | 9 |
| Ymgysylltu a chyhoeddiadau | 12 |
| Cynulleidfaeodd a phrosiectau newydd | 14 |
| Ymholiadau gan y cyhoedd | 16 |
| Cefnogwyr Chwarae Cymru | 17 |
| Cefnogaeth a gwaith eiriol | 18 |
| Adolygiad ariannol – crynodeb | 19 |
| Cynlluniau ar gyfer y dyfodol 2024-2025 | 20 |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru – llywodraethu | 21 |
| Tîm Chwarae Cymru | 21 |

# Adroddiad y Cadeirydd

Yn y mwyafrif o gyfarfodydd Bwrdd Chwarae Cymru bydd aelodau o'r tîm staff yn ymuno â'r Ymddiriedolwyr ar gyfer eitem agenda ar y rhaglen waith. Bydd y staff yn cyflwyno trosolwg o'r hyn maent wedi bod yn ei wneud dros y chwarter diwethaf ac yn amlinellu rhai o'r heriau sydd i ddod. Byddaf yn rhyfeddu bob tro gymaint o waith y maent wedi ei wneud. Er mai ychydig sydd yn y tîm, mae eu cyrhaeddiad yn aruthrol.

Mae Chwarae Cymru'n bodoli i ddylanwadu ar bolisi, cynllunio strategol ac ymarfer pob sefydliad sy'n gyfrifol am drosglwyddo ac sydd â diddordeb mewn chwarae plant. Rwyf wedi bod yn aelod o'r Bwrdd ers imi orffen fel Comisiynydd Plant Cymru yn 2015. Dros y cyfnod maith hwnnw ni chafwyd fawr ddim seibiant, os o gwbl, a nawr fy mod yn Gadeirydd Chwarae Cymru mae fy ngwerthfawrogiad o bwysigrwydd ein gwaith yn gryfach fyth.

Mae pob plentyn fel sbwng. Maen nhw'n amsugno'r hyn sy'n digwydd o'u hamgylch. Weithiau fe fyddan nhw'n ei chael yn anodd deall yr hyn sy'n digwydd. Fe fyddan nhw'n gofyn cwestiynau, yn actio allan yr hyn y maent yn ei weld ac fe fyddan nhw'n chwarae. Fe fyddan nhw'n chwarae er mwyn gwneud synnwyr o bethau, fe fyddan nhw'n chwarae er mwyn rhoi tro ar bethau, fy fyddan nhw'n chwarae ac yn cymryd risg, ac fe fyddan nhw'n chwarae er mwyn cael hwyl. Mae chwarae'n brofiad dysgu a bydd chwarae a gyfarwyddir yn bersonol yn cynnig rhai o adegau gorau eu bywydau. Mae hynny'n bwysig gan nad yw'r byd sydd ohoni heddiw yn le hawdd i fyw.

Mae pryderon amgylcheddol am y blaned, mae rhyfeloedd ac anniddigrwydd, ansefydlogrwydd gwleidyddol, mae cost byw yn uchel ac mae cyfyngiadau ariannol ar bwrs y wlad. Nid yw plant yn rhydd o'r pethau hyn. Maent yn gweld ac yn clywed pethau ar ein cyfryngau prif ffrwd, maent yn gwrando ar bryderon yr oedolion o'u hamgylch ac maent yn derbyn pob math o negeseuon, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ar y cyfryngau cymdeithasol.

Felly, pa mor bwysig yw chwarae i blant? Un o'r pethau pwysicaf yn y byd.

Wrth ichi ddarllen yr adroddiad hwn, hoffwn ofyn ichi fyfyrio ar sut y mae'r holl weithgarwch a amlinellir ynddo yn gwella pethau ar gyfer plant, ar gyfer chwarae plant ac ar gyfer y sector. Dyna'r her y byddwn yn ein gosod i'n hunain wrth inni gynllunio a throsglwyddo ein rhaglen waith. Weithiau bydd pethau'n gweithio allan fel yr oeddem yn gobeithio a phob hyn a hyn byddwn yn myfyrio ac yn siarad drwy sut y gallem wella pethau'r tro nesaf. Yn union fel chwarae, byddwn yn rhoi tro ar rywbeth ac yn dysgu wrth fynd yn ein blaen.

Rydym yn ddiolchgar, fel erioed, i Lywodraeth Cymru sy'n darparu'r mwyafrif o'n cyllid. Mae Cymru wedi creu enw da nodedig i'w hun yn rhyngwladol fel gwlad sydd wedi blaenoriaethu chwarae plant a gwaith chwarae. Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae wedi rhoi cyfle inni feddwl trwy sut y gellir atgyfnerthu ein hymrwymiad i hawliau plant a chwarae plant a'u datblygu ymhellach.

Mae'r adroddiad hwn yn dathlu'r gwaith yr ydym wedi ei gyflawni dros y flwyddyn ond, wrth gwrs, mae faint bynnag o gynnydd a wnaed wastad yn cael ei ystyried yn erbyn cymaint mwy sydd ar ôl i'w wneud!

**Keith Towler**
Cadeirydd, Chwarae Cymru

# Adroddiad y Cyfarwyddwr

Efallai y gwnaiff ambell ddarllenwr sylweddoli ei bod yn bedair blynedd ers inni gyhoeddi ein hadroddiad effaith diwethaf. Yn y cyfnod ers hynny, mae nifer o ddarnau sylweddol o waith wedi eu cyflawni, y cyfeirir at rai ohonynt yn yr adroddiad effaith hwn. Yn benodol, derbyniodd ein ffilm newydd, *Dyma pam mae chwarae mor bwysig*, groeso gwresog wedi ei dangos am y tro cyntaf yng nghynhadledd fyd-eang yr International Play Association yng Nglasgow yn 2023.

Yn fwy diweddar, mae cynhyrchu Chwarae a lles, cyfrol bwysig ac amserol wedi tyfu a thyfu, gan gyflwyno her fwy o lawer na'r disgwyl i'r awduron, y cyfieithydd a'r golygydd/dylunydd. Fel yr oeddem yn gobeithio, cafodd y papur briffio a'r grynodeb sy'n cyflwyno'r adolygiad llenyddiaeth dderbyniad gwresog gan gynulleidfa ryngwladol. Rwy'n rhagweld y bydd cynnwys yr adolygiad llenyddiaeth llawn, a gyhoeddwyd yn Hydref 2024, yn dylanwadu ar farn am flynyddoedd lawer.

Yn aml, byddwn yn gorfod egluro bod chwarae'n bwysig i blant hŷn ac arddegwyr yn ogystal â phlant bach a phlant iau, felly dylwn hefyd gyfeirio at un o ymgyrchoedd *Plentyndod Chwareus* a gynhaliwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n bosibl mai 'Pan o'n i dy oed di', ymgyrch oedd yn herio tybiaethau ynghylch ymddygiad arddegwyr mewn mannau cyhoeddus, yw ein hymgyrch fwyaf poblogaidd hyd yma.

Cyflawnwyd y llwyddiannau hyn, a'r holl rai eraill a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, ar gryn gost i weithlu Chwarae Cymru. Rydym yn dîm bychan, ymroddedig sy'n dal i ymdrechu i gyflawni'r disgwyliadau a sefydlwyd pan oedd ein niferoedd staffio deirgwaith yr hyn yw heddiw.

Rydym wedi hen arfer bellach canolbwyntio ar sut y gallwn ddefnyddio ein capasiti cyfyngedig er sicrhau'r effaith mwyaf.

Byddwn yn neilltuo amser yn rheolaidd i ystyried pa gamau gweithredu allai sicrhau'r effaith strategol mwyaf. Weithiau, bydd hyn yn galw am wneud penderfyniadau anodd ac er cymaint y byddem yn dymuno parhau â'n gwaith i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, yn enwedig ymhlith rhieni, am rôl a phwysigrwydd chwarae ym mywydau eu plant, mae rhaid inni gydnabod y gallwn ond cyflawni'r hyn a allwn.

Yn ein hadroddiad diwethaf, roeddem yn croesawu cychwyn y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Bedair blynedd yn ddiweddarach, rydym yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu argymhellion yr adolygiad, y cafodd pob un ohonynt eu derbyn a'u cefnogi gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Julie Morgan, yn ei hymateb.

Dylwn hefyd ddiolch i Keith Towler am ymgymryd â rôl y cadeirydd, a diolch i'w ragflaenydd, Mike Shooter, am ei gefnogaeth a'i ymroddiad trwy adeg fu'n heriol ar brydiau, yn ystod ei gyfnod fel cadeirydd.

'Does dim dwywaith y ceir heriau yn y dyfodol fydd yn dylanwadu ar ein blaenoriaethau, ar ein gwaith a'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu, ond wedyn mae amryw wedi dweud bod Chwarae Cymru wastad yn sionc ar ein traed.

**Mike Greenaway**
Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru



# Am Chwarae Cymru

**Yr elusen genedlaethol dros chwarae plant yng Nghymru**

## Ein gweledigaeth

Dyfodol ble caiff chwarae ei werthfawrogi yng Nghymru am ei fod yn hanfodol i blentyndod iach a hapus. Gwlad ble mae plant yn rhydd i archwilio, darganfod, datblygu a thyfu drwy chwarae.

## Ein cennad

Ymgyrchu dros Gymru chwarae-gyfeillgar trwy arwain gyda bwriad, cydweithio gyda chynwysoldeb, addysgu gyda brwdfrydedd, a chefnogi gyda sensitifrwydd.



Yn ein gwaith, rydym yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- **Cynyddu ymwybyddiaeth:** rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth am angen a hawl plant ac arddegwyr i chwarae.
- **Hybu arfer da:** rydym yn hyrwyddo arfer dda ar bob lefel o lunio penderfyniadau. Rydym hefyd yn hyrwyddo arfer da ble bynnag y gall plant chwarae.
- **Darparu cyngor ac arweiniad ar draws pob sector:** rydym yn darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi pawb sydd â diddordeb mewn, neu sy'n gyfrifol am, ddarparu'r hyn sydd ei angen ar gyfer chwarae plant.

Mae ein gwaith yn cynnwys:

- **Polisi:** gweithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i hysbysu datblygiad polisi a materion chwarae plant eraill.
- **Gwasanaeth gwybodaeth:** hybu gwerth chwarae plant trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol ac amserol i bawb sydd â diddordeb mewn, neu sy'n gyfrifol am, chwarae plant.
- **Cyngor a chefnogaeth:** darparu gwybodaeth arbenigol am bob mater sy'n effeithio ar chwarae plant.
- **Datblygu'r gweithlu:** cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.

**Ers mis Hydref 2014 (tan fis Mawrth 2024) mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Chwarae Cymru trwy Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru er mwyn darparu ystod eang o gymorth strategol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.**

# Crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd 2023-2024

## Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

**Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i gefnogi gweithrediad eu Dyletswyddau Digonolrwydd Chwarae statudol.**

Mae Chwarae Cymru wedi:

- parhau i weithio gydag ymchwilwyr a gomisiynwyd ar adolygiad llenyddiaeth ac adnoddau ategol er mwyn diweddaru'r dystiolaeth ar werth chwarae o safbwynt polisi cymdeithasol, gyda ffocws ar Gymru.
- cyhoeddi dadansoddiad Cymru gyfan o bron i 7,000 o arolygon bodlonrwydd chwarae plant.
- cynnal gweithgarwch i gynnal y dysg o'r Prosiect Llysgenhadon Chwarae Cymunedol (prosiect tair blynedd o hyd a arianwyd gan y Gronfa Iach ac Egnïol), yn cynnwys datblygu a chynhyrchu cwrs chwarae a gwaith chwarae, a ardystir gan Chwarae Cymru.
- sicrhau ariannu i ddatblygu a darparu adnoddau er mwyn i bartneriaid roi prosiectau chwarae ar ôl oriau ysgol ar waith, ac i gynnal peilot o brosiect i ddeall a chefnogi anghenion chwarae plant sy'n byw mewn llety dros dro.
- trosglwyddo pedwar cyfarfod o Gyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) gan gefnogi dialog rhwng cyflogwyr gwaith chwarae, sefydliadau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymwysterau Cymru.
- parhau i weithio ar gamau gweithredu a geir yn *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*, cynllun Chwarae Cymru ar gyfer datblygiad parhaus y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.
- datblygu'r isadeiledd ar gyfer trosglwyddiad cenedlaethol cymwysterau gwaith chwarae trwy gefnogi datblygiad a gweithrediad parhaus chwe chanolfan hyfforddiant.
- cynnal peilot o Chwarae o Safon, fframwaith sicrhau ansawdd newydd ar gyfer gwaith chwarae.
- trosglwyddo pedwar gweminar thema benodol, dau ddigwyddiad wyneb yn wyneb, dau lansiad ffilm ac ystod eang o gyflwyniadau a gweithdai i gefnogi'r gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.
- parhau i ddatblygu ymgyrch a gwefan *Plentyndod Chwareus*. Yn ogystal â helpu rhieni, mae'r rhain wedi eu hanelu at bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd i ddarparu syniadau ymarferol ar gyfer rhoi digonedd o gyfleoedd da i blant chwarae.
- ymateb i saith ymgynghoriad cenedlaethol perthnasol.
- datblygu nifer o wahanol adnoddau i gefnogi ymarferwyr, yn cynnwys gweithwyr chwarae ac athrawon.
- cyfrannu at Adroddiad Amgen Cymdeithas Sifil, Grŵp Monitro CCUHP i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn.

### Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

Fe wnaethom gyfrannu at Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru a'r camau gweithredu a gododd o'r adolygiad trwy:

- weithredu fel ysgrifenyddiaeth ac awduron yr adroddiad ar ran Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae
- cyhoeddi crynodeb o adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae
- datblygu fersiwn i blant o adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae
- adolygu Templed a Phecyn Cymorth yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae, gyda swyddogion digonolrwydd chwarae awdurdodau lleol
- darparu cyngor ac arweiniad penodol ynghylch materion sy'n ymwneud â'r gweithlu er mwyn hysbysu Cynllun Gweithredu Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, Llywodraeth Cymru.

# Gweithwyr proffesiynol hyddysg

Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio'r gweithlu chwarae fel 'unrhyw un cyflogedig y mae ei rôl yn effeithio ar blant yn chwarae – y bobl hynny allai un ai hwyluso eu chwarae'n uniongyrchol, dylunio ar gyfer chwarae, neu'r rheini sydd a'r pŵer i roi caniatâd i blant chwarae, neu beidio' (*Cymru – Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae*, 2025). Mae'r gweithlu chwarae'n cynnwys gweithwyr chwarae ond mae hefyd yn cynnwys ystod eang iawn o weithwyr proffesiynol eraill o ysgolion, adrannau cynllunio, priffyrdd a thrafnidiaeth, iechyd a diogelwch a gofal plant, yn ogystal â grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cynghorau tref a chymuned ac aelodau etholedig.

**Mae Chwarae Cymru wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgarwch er mwyn sicrhau bod y gweithlu chwarae'n cael cyfle i gryfhau eu dealltwriaeth o'u rôl wrth sicrhau bod plant yn cael mwy a mwy o gyfleoedd i chwarae.**

## Trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- trosglwyddo'r Wobr mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDaPT) i 21 o ddysgwyr ar hyd a lled Cymru.
- datblygu'r isadeiledd ar gyfer trosglwyddiad cenedlaethol cymwysterau gwaith chwarae trwy gefnogi datblygiad a gweithrediad parhaus chwe chanolfan hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd cymwysterau L2APP, MAHPS a $P^3$, yn ogystal â chefnogi hyfforddwyr ac aseswyr, adolygu dulliau asesu a rhoi cyngor ar drosglwyddo.
- cefnogi adolygiad o gymwysterau gwaith chwarae Agored Cymru.
- gweithio gyda PETC Cymru a phartneriaid eraill i ddynodi ariannu ar gyfer trosglwyddiad cynaliadwy cymwysterau gwaith chwarae ac ehangu'r isadeiledd hyfforddwyr, gan ddefnyddio ystod eang o fodelau ariannu.

## Chwarae o Safon

Fe wnaethom arwain ar ddatblygiad Fframwaith Sicrhau Ansawdd newydd ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae yng Nghymru. Yn dwyn y teitl Cymraeg yn unig, Chwarae o Safon, mae'r fframwaith yn cael ei ddatblygu gyda chymorth grŵp cyfeirio arbenigol yn cynnwys sefydliadau ac unigolion sy'n rhan o'r ystod eang o leoliadau ble bydd gwaith chwarae'n digwydd. Mae'r fframwaith yn addas ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig ac anghofrestredig yn ogystal â lleoliadau ble nad yw gwaith chwarae'n brif swyddogaeth, megis ysgolion sydd am dystio i ymarfer gwaith chwarae o safon.

Bydd ar gael ar ffurf dull hunanasesu. Anogir lleoliadau i gyflawni proses asesu allanol i dderbyn bathodyn ansawdd i arddangos eu bod wedi cyflawni gofynion y fframwaith ansawdd.

## Consortiwm NOS Gwaith Chwarae y DU

Mae Chwarae Cymru'n darparu ysgrifenyddiaeth i Gonsortiwm NOS Gwaith Chwarae y DU. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Chwarae Cymru, Play Scotland, Play England, PlayBoard Northern Ireland a'r Playwork Foundation. Pwrpas y consortiwm yw cynllunio'n strategol ar draws y pedair gwlad ar gyfer dyfodol datblygu'r gweithlu a mentrau sgiliau sector yng nghyd-destun gwaith chwarae.

Yn ystod y flwyddyn, datblygodd y consortiwm achos busnes dros gynnal adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer Gwaith Chwarae ar ran Consortiwm NOS Gwaith Chwarae y DU, er mwyn paratoi ar gyfer adolygiad yn y dyfodol. Cymeradwywyd y gwaith hwn gan Banel Safonau a Fframweithiau'r DU, a chaiff ei ddatblygu yn ystod 2024-2025. Am fwy o wybodaeth am y consortiwm a'r adolygiad NOS, ewch i: **www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu/**

## Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn fe wnaethom gefnogi datblygiad, trefnu a chynnal nifer o ddigwyddiadau a chyfleoedd DPP ar gyfer y sector chwarae a gwaith chwarae ehangach, yn cynnwys cynllunio a throsglwyddo:

- ein cynhadledd genedlaethol gyntaf ers 2019 i oddeutu 120 o gyfranogwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt, ar y thema Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae: beth nesaf? Roedd y prif siaradwyr yn cynnwys Julie Morgan AS – y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dr David Dallimore a'r Athro Helen Dodd.
- Fforwm Gweithwyr Chwarae deuddydd yn yr awyr agored ar gyfer 49 o gyfranogwyr, yn canolbwyntio ar waith chwarae mewn cyd-destunau eraill a sgiliau ymarferol. Mae'n rhoi cyfle i weithwyr chwarae ddysgu oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth hyfforddwyr gwaith chwarae profiadol.

### Dweud eich dweud...

**Dyma oedd gan gyfranogwyr ein cynhadledd genedlaethol flynyddol yn 2023 i'w ddweud:**

'Diwrnod hynod o ysbrydoledig a llawn gwybodaeth.'

'Roedd yn wych dod a phawb at ei gilydd wyneb yn wyneb. Fe roddodd gyfle imi greu perthnasau gyda swyddogion datblygu chwarae eraill o awdurdodau lleol eraill.'

'Wedi ei reoli a'i drosglwyddo'n dda iawn. Rhaglen ddiddorol ac amrywiol. Ysbrydoledig i fod yma.'

**A dyma sut y soniodd cyfranogwyr y Fforwm Gweithwyr Chwarae am eu profiadau:**

'Fe lwyddais i greu cysylltiadau gyda gweithwyr chwarae eraill ac ennill ystod eang o wybodaeth a sgiliau oddi wrth y siaradwyr a'r gweithgareddau.'

'Mae'n dod a phobl o'r un meddylfryd at ei gilydd, yn sbarduno egni a brwdfrydedd ac yn gwneud rôl gweithiwr chwarae'n gyflawn a real.'

'Gan fy mod ond wedi cwblhau fy L2APP yn ddiweddar roedd yn wych gallu ei weld yn "y byd go iawn" mewn pobl oedd a blynyddoedd o brofiad, oedd yn esiamplau byw, gweithredol o'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith.'

Fe wnaethom hefyd hwyluso ystod eang o weminarau, a themâu penodol, rhad ac am ddim a ddenodd gynulleidfaoedd cryf, yn cynnwys:

- Archwilio'r cysylltiadau rhwng gwaith chwarae a gwaith ieuenctid
- Ail-ddefnyddio stwff ar gyfer chwarae
- Beth sy'n creu lle gwych i chwarae
- Mwd, llanast a gwisg ffansi – hybu *Plentyndod Chwareus* i'r rheini sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae a gwaith chwarae, mae ein tîm wedi trosglwyddo nifer o weithdai. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- gweithdy sgiliau gwaith chwarae ymarferol ar gyfer gweithwyr chwarae yn Sir Ddinbych
- cyfres o weithdai Datblygiad Proffesiynol Parhaus wyneb yn wyneb ar gyfer Gwasanaethau Chwarae Caerdydd.

Fe wnaethom hefyd drosglwyddo cyfres o gyflwyniadau i:

- Gefnogi Teuluoedd a Chymuned Ymarfer NYTH
- Ysgolion Bro yng Nghaerffili
- Ysgol haf Ysgol Daearyddiaeth Prifysgol Caerdydd
- Cynhadledd Cefnogi Plant a Theuluoedd sy'n Wynebu Argyfwng.

## Cydweithio'n lleol ac yn genedlaethol

Ar lefel leol, fe wnaethom:

- weithredu'r Prosiect Ymwybyddiaeth Chwarae, a arianwyd gan Dîm Iechyd y Cyhoedd Aneurin Bevan Gwent
- cynnal archwiliad chwarae yn yr ysbyty ar gyfer Tîm Iechyd y Cyhoedd Cwm Taf Morgannwg
- datblygu a gweithredu prosiect chwarae awyr agored i'r blynyddoedd cynnar ar gyfer Tîm Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro.

Ac yn genedlaethol, fe wnaethom weithio gyda:

- Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (NCPHWR) i gynnal peilot o ap sy'n cynorthwyo plant i raddio eu cymunedau o ran chwarae a gweithgarwch corfforol
- Blynyddoedd Cynnar Cymru a Chwaraeon Cymru ar *Fframwaith Sylfeini Cymru: Arfer Da mewn Amgylcheddau Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon ar gyfer Plant 3 i 11 oed*.
- Starlight Children's Foundation i gefnogi Arbenigwyr Chwarae mewn Ysbytai yng Nghymru.

**Diwrnod Chwarae**

Dathliad blynyddol y DU o hawl plant i chwarae. Caiff ei gydlynu gan Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland. Rydym yn cynrychioli Cymru ar Grŵp Llywio'r Diwrnod Chwarae sy'n cydlynu'r ymgyrch flynyddol.

Yn Chwarae Cymru, rydym yn ystyried Diwrnod Chwarae fel cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae plant a'r angen am ddarpariaeth chwarae o safon bob dydd o'r flwyddyn ym mhob ardal o Gymru.

Fel rhan o ymgyrch Chwarae am y nesaf peth i ddim 2023, fe wnaethom greu casgliad o adnoddau dwyieithog fyddai ar gael er mwyn i deuluoedd a threfnwyr digwyddiadau allu cynnig cyfleoedd rhad neu am ddim i blant chwarae ar Ddiwrnod Chwarae a thrwy wyliau'r haf.

Fe anfonom lythyrau, ar ran pob plentyn yng Nghymru, at Aelodau'r Senedd i'w gwahodd i ymuno yn nigwyddiadau Diwrnod Chwarae 2023 yn eu hetholaeth.

## Cydweithio rhyngwladol

Fel rhan o'n gwaith ehangach fel canolfan ragoriaeth ryngwladol, fe wnaethom:

- ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer cangen International Play Association (IPA) Cymru Wales
- trosglwyddo nifer o gyflwyniadau, gweithdai a chyflwyniadau poster yng Nghynhadledd Fyd-eang yr IPA 2023
- darparu cefnogaeth ac arweiniad i'n cydweithwyr yn Play Aotearoa (IPA Seland Newydd), Sport New Zealand a Playright (Hong Kong)
- parhau i ddarparu cymorth i IPA World i lynu at ofynion fel elusen ryngwladol sydd wedi ei chofrestru yng Nghymru a Lloegr
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r sefydliad plant Jantje Beton i drosglwyddo'r cwrs Ymarferydd Sylfaen: Gwaith Chwarae Rhyngwladol i 10 o ddysgwyr yn yr Iseldiroedd
- cydweithio gyda'n cyfeillion ym Mhortiwgal i lunio cytundeb ynghylch defnyddio cyhoeddiadau Chwarae Cymru.

## Cydweithio academaidd


Fe wnaethom barhau â phartneriaethau ymchwil gyda Phrifysgol Bryste, Prifysgol Swydd Gaerloyw, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd gan gynghori ar ystod o bynciau ymchwil, yn cynnwys:

- chwarae mewn ysgolion
- chwarae a hiwmor
- chwarae yn y blynyddoedd cynnar ac ymgysylltu â theuluoedd
- chwarae, gweithgarwch corfforol a lles
- chwarae ac ymgysylltu â phlant.

Fe wnaethom weithio hefyd gyda Phrifysgol Caerdydd i gynnal lleoliad i fyfyriwr gasglu data ar gyfer gwaith arolwg Cymru gyfan.

# Ymgysylltu a chyhoeddiadau

Mae ein hadnoddau ar gael i bawb ar ein gwefan:
**www.chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau**




## Gwefan

Ym mis Mai 2023, lansiwyd brand a gwefan newydd Chwarae Cymru – yn cynnwys logo newydd. Yn ogystal ag ail-ddylunio ac ailstrwythuro'r wefan, fe wnaethom adolygu a diweddaru'r holl gynnwys ysgrifenedig. Yn ystod y flwyddyn denodd gwefan Chwarae Cymru 160,000 o ymweliadau i dudalennau gan 55,000 o ddefnyddwyr.

Bob mis byddwn yn dosbarthu e-fwletin i 4,000 o dderbynwyr. Mae'n cyflwyno crynodeb o bopeth sy'n newydd ar y wefan, o newyddion a chyfleoedd ariannu, i swyddi gwag yn y sector a digwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi.

## Dilynwyr cyfryngau cymdeithasol

Mae gennym dros 17,000 o ddilynwyr ar gyfrifon Facebook ac X (Twitter) Chwarae Cymru. O'u cyfuno â'r 6,000 o ddilynwyr ar ein cyfrifon Facebook ac Instagram *Plentyndod Chwareus*, mae hyn yn golygu ein bod yn rhannu gwybodaeth ac yn ymgysylltu'n rheolaidd gyda dros 23,000 o bobl sydd â diddordeb yn ein gwaith.

## Gwerthusiad

Fe wnaethom gynnal gwerthusiad o'n gwasanaeth gwybodaeth trwy arolwg ar-lein a chyfweliadau un i un gyda phartneriaid allweddol. Fe wnaethom dderbyn ymateb hynod gadarnhaol i'n gwaith ac adborth adeiladol i hysbysu ein gwaith i'r dyfodol.

## Adnoddau

Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd a dosbarthwyd ystod eang o adnoddau newydd er mwyn helpu i hysbysu ein cynulleidfaoedd:

### Cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*

Cyhoeddwyd dau rifyn a'u dosbarthu i 4,000 o dderbynwyr a hynny mewn print ac yn ddigidol. Roedd rhifynnau eleni'n:

- **dathlu 25 mlynedd o Chwarae Cymru**. Mae'r erthyglau'n amlygu darnau gwaith allweddol y buom yn rhan ohonynt a gwaith cydweithrediadol yn ymgyrchu dros hawl plant i chwarae.
- **ailymweld â'r thema chwarae a lles**. Mae'r erthyglau'n dangos sut all amser, lle a rhyddid i chwarae fod o fudd mawr i iechyd meddwl plant, gan leddfu straen a lleihau effaith niweidiol trawma.

### *Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae – Crynodeb gan Chwarae Cymru*

Mae ein crynodeb o Adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer yr adolygiad, gan egluro pwysigrwydd chwarae i blant a phwysleisio'r ddyletswydd gyfreithiol yng Nghymru i warchod a hyrwyddo chwarae. Mae'n nodi hefyd bwysigrwydd ystyried barn y plant wrth asesu digonolrwydd eu cyfleoedd i chwarae.

### Taflen wybodaeth *Amddifadedd chwarae*

Mae'n trafod achosion a chanlyniadau amddifadedd chwarae ar gyfer datblygiad plant, a photensial gwaith chwarae. Mae'n archwilio ymchwil i'r cysylltiadau rhwng dirywiad yng nghyfleoedd plant i chwarae a chynnydd mewn problemau iechyd meddwl a chymdeithasol.

Yn ogystal, fe wnaethom:

- barhau i ddosbarthu copïau print o'n tri llyfr stori – *Hwyl yn y dwnjwn, Hwyl yn yr ardd* a *Hwyl ar iard yr ysgol*
- diweddaru ein *Rhestr ddarllen ar gyfer athrawon – Cefnogi chwarae plant mewn ysgolion*.

## Ymchwil

### Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru 2022




Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o ymatebion oddi wrth bron i 7,000 o blant ac arddegwyr yng Nghymru ble maent yn dweud wrthym am yr hyn sy'n dda a'r hyn sydd ddim cystal am y cyfleoedd chwarae yn eu hardal leol a pha mor fodlon ydyn nhw gyda phryd, sut a ble y gallant chwarae. Mae hefyd yn archwilio effaith COVID-19 ar eu cyfleoedd i chwarae.

Wedi ei ysgrifennu gan y Dr David Dallimore, mae'r adroddiad yn cyflwyno crynodeb o'r wybodaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol ledled Cymru fel rhan o'u Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae yn 2022. Er mwyn pwysleisio lleisiau'r plant trwyddo, mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau diddorol gan blant ac arddegwyr o bob oed o bob cwr o Gymru.

### Chwarae a lles




Mae *Chwarae a lles* yn adolygiad o ymchwil diweddar i chwarae plant, polisi cymdeithasol ac ymarfer, gyda ffocws ar Gymru. Mae'r ymchwilwyr yn ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng digonolrwydd chwarae a lles plant. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar rôl chwarae yn lles plant, patrymau chwarae plant, a chefnogaeth oedolion i chwarae plant.

Parhaodd y gwaith ar yr adolygiad llenyddiaeth trwy gydol y flwyddyn. Er mwyn cyflwyno'r adolygiad, fe wnaethom gyhoeddi:

- crynodeb, sy'n cynnwys gwybodaeth am gwmpas ac arddull yr adolygiad llenyddiaeth, a throsolwg a chanfyddiadau o bob un o'r penodau.
- papur briffio sy'n cynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau diweddar mewn ymchwil plentyndod a chwarae, datblygiadau polisi, sut mae chwarae'n cyfrannu at les, yn ogystal â chwarae plant heddiw.

## Ffilm Chwarae Cymru

Mae ffilm ddogfen newydd sy'n cynnwys plant o bob cwr o Gymru, yn dathlu chwarae ac yn pwysleisio ei bwysigrwydd i bob plentyn.

Mae gan *Dyma pam mae chwarae mor bwysig* ffocws cryf ar blant a lleisiau'r plant. Maent yn dweud wrthym yn gwbl onest yr hyn mae chwarae'n ei olygu iddyn nhw. Mae'r ffilm yn portreadu pam fod chwarae'n hanfodol i ddatblygiad, iechyd, lles a hapusrwydd plant.

Wedi ei lleisio gan yr actor Matthew Rhys – yn Gymraeg a Saesneg – ffilmiwyd y ffilm ddogfen dros ddwy flynedd ar hyd a lled Cymru. O chwarae stryd i feysydd chwarae, ystafelloedd byw i iardiau cefn, mae'r ffilm yn portreadu chwarae yn ei holl wahanol ffurfiau ac yn cynnig cipolwg unigryw ar pam fod chwarae mor bwysig i blant o bob oed.

Mae'r ffilm hefyd yn cynnwys cyfweliadau gydag oedolion sy'n myfyrio ar eu hatgof cyntaf o chwarae a sut y gadawodd hynny argraff barhaol arnyn nhw.

Comisiynodd Chwarae Cymru'r ffilm er mwyn amlygu i rieni, gofalwyr, ac oedolion sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, bwysigrwydd chwarae ym mywydau plant yng Nghymru, a sut all pob un ohonom ei gefnogi.

Cynhyrchwyd y ffilm gan Working Word, sydd wedi ei chyflwyno ers hynny mewn nifer o wyliau ffilm rhyngwladol.

Yn dilyn dau ddigwyddiad lansio llwyddiannus a ddenodd niferoedd da yng Nghaerdydd a Wrecsam, mae'r ffilm wedi ei dangos i gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys ei sgrinio yng Nghynhadledd Fyd-eang IPA 2023 yng Nglasgow. Mae ar gael hefyd i'w gwylio ar-lein: **www.chwarae.cymru/chwarae/ffilm**

# Cynulleidfaeodd a phrosiectau newydd

Plentyndod Chwareus

Fel rhan o'n gwaith i ymgysylltu gyda rhieni a gofalwyr, fe lansiom wefan *Plentyndod Chwareus* ym mis Medi 2018 ac rydym yn dal i ddatblygu cynnwys defnyddiol ac ymarferol ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

Ein cennad ar gyfer yr ymgyrch *Plentyndod Chwareus* yw i helpu oedolion i roi plentyndod hapus, iach i blant drwy chwarae. Bob dydd.

Mae'n anelu i helpu rhieni, gofalwyr a grwpiau cymunedol i roi digonedd o gyfleoedd chwarae da i blant. Mae'r wefan hefyd yn ddefnyddiol i grwpiau lleol a chynghorau tref a chymuned i ddarparu cymdogaethau chwarae-gyfeillgar yn eu hardaloedd. Gall yr adnoddau hefyd gael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol yn eu gwaith â phlant a theuluoedd.

Mae'r wefan yn cynnig:

- syniadau ymarferol am roi amser, lle a phethau i chwarae gyda nhw
- awgrymiadau anhygoel, canllawiau 'sut i' a syniadau ar gyfer chwarae plant
- gwybodaeth am godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae, cyngor ar gynllunio mannau chwarae ac ymgyrchu dros chwarae
- detholiad o enghreifftiau ysbrydoledig o brosiectau a grwpiau ledled Cymru sy'n sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i chwarae.

Mae ein gweithgarwch yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- datblygu a lansio gwefan ar ei newydd wedd, yn cynnwys ei ailstrwythuro i'w gwneud hi'n haws i'w defnyddio a'i llywio.
- denu 50,000 o ymweliadau i dudalennau'r wefan, gan 33,000 o ddefnyddwyr.
- parhau i ymgysylltu gyda'n 6,000 a mwy o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd.
- defnyddio canfyddiadau o werthusiad allanol o'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysu ein gwaith ac i archwilio datblygiadau i'r dyfodol. Er enghraifft, rydym wedi comisiynu cynnwys ysgrifenedig newydd mewn ymateb i adborth adeiladol a dderbyniwyd.
- cynhyrchu clipiau fideo byr bytholwyrdd er mwyn helpu i gefnogi rhieni i roi amser, lle a rhyddid i'w plant chwarae gartref ac yn eu cymdogaeth – a'r rheini i gyd yn syniadau chwarae cost isel a rhad ac am ddim.
- ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru i rannu negeseuon amserol fel rhan o'i ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo.

**Ymgyrch Chwarae am y nesaf peth i ddim**

Dros yr haf fe wnaethom ddatblygu a throsglwyddo ymgyrch pum wythnos o hyd lwyddiannus i gynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae a lledaenu'r newydd am wefan *Plentyndod Chwareus* fel adnodd. Yn ystod ymgyrch Chwarae am y nesaf peth i ddim gwelwyd cynnydd o 450% mewn traffig i'r wefan Saesneg a chynnydd o dros 700% i'r wefan Gymraeg. Fe wnaethom fuddsoddi mewn hysbysebion golygyddol am y tro cyntaf, oedd yn rhan allweddol o lwyddiant yr ymgyrch.

## Dewch inni siarad am chwarae

Mae'r cwrs Dewch inni siarad am chwarae wedi ei ddylunio fel cyflwyniad i chwarae a gwaith chwarae. Mae wedi ei ardystio gan Chwarae Cymru. Mae'r cwrs yn darparu pecyn cynhwysfawr o adnoddau addysgu a dysgu sydd ar gael i'w trosglwyddo gan unrhyw diwtor sydd wedi llwyddo i gwblhau'r Wobr Lefel 3 mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDaPT).

Mae'r cwrs yn cynnwys tair sesiwn:

- Mae **Pam chwarae?** yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o beth yw chwarae a pham ei fod yn bwysig. Mae'r sesiwn hon wedi ei hanelu at y gweithlu chwarae – y rheini sydd mewn rolau allai effeithio ar hawl y plentyn i chwarae.
- Mae **Beth yw chwarae a gwaith chwarae?** a **Pam gwaith chwarae?** yn cyflwyno chwarae a chwarae fel gweithgaredd ac yn datblygu dealltwriaeth o rôl gweithwyr chwarae. Mae'r sesiynau hyn yn cael eu hanelu at wirfoddolwyr, pobl sy'n newydd i'r proffesiwn fel cwrs lefel mynediad, neu weithwyr chwarae tymhorol fel cwrs gloywi.

Nodau'r cwrs yw:

- cefnogi'r gweithlu gwaith chwarae trwy ddarparu cam cychwynnol i mewn i raglen ddysgu gwaith chwarae ar gyfer y gweithwyr chwarae a'r gwirfoddolwyr gwaith chwarae hynny sydd heb ennill cymhwyster ffurfiol hyd yma
- cynnig 'cwrs gloywi' ar gyfer gweithwyr chwarae sydd, efallai, yn gweithio ar adegau penodol o'r flwyddyn heb unrhyw ymarfer gwaith chwarae rhwng y cyfnodau hynny
- darparu gwybodaeth a chefnogi gweithwyr proffesiynol eraill i ystyried effeithiau eu penderfyniadau ar chwarae plant.

Mae'r cwrs a'r deunyddiau dysgu ac addysgu'n waddol y Prosiect Llysgenhadon Chwarae a arianwyd gan y Gronfa Iach ac Egnïol.

## Cyfleoedd chwarae i blant mewn llety dros dro

Er mwyn cefnogi'r nifer cynyddol o blant sy'n byw mewn llety dros dro, megis gwestai a llety gwely a brecwast, fe wnaethom ddatblygu prosiect i gefnogi cyfleoedd chwarae yn y lleoliadau hyn. Prin yw'r cyfleoedd fydd gan blant i chwarae yn yr amgylchedd byw yn ogystal ag o ran darpariaeth yn y gymuned. Mae cyllid gan The Moondance Foundation yn ein galluogi i weithio gyda'n rhwydwaith o swyddogion chwarae i ddeall y cyfyngiadau a'r cyfleoedd mewn llety dros dro. Rydym wedi casglu a chyflenwi Pecynnau Chwarae, sy'n cynnwys syniadau ac adnoddau syml a di-gost ar gyfer teuluoedd i gefnogi chwarae mewn gofod cyfyngedig yng Nghaerffili, Caerdydd, Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf.

## Aros a Chwarae

Yn dilyn y pandemig, rydym wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau mewn amryw o leoliadau i gynnal cynlluniau peilot pellach o ddefnyddio tiroedd ysgolion ar gyfer chwarae dan arweiniad y plant wedi i'r diwrnod ysgol ddod i ben. Mae awydd ysgolion i ddarparu gwasanaethau o'r fath wedi cynyddu'n sylweddol. Ond maen nhw angen cefnogaeth.

Mae cyllid oddi wrth Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm a Mentrau Cymunedol Future Valleys Construction wedi ein galluogi i helpu awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion.

Mae timau datblygu chwarae a thimau ysgolion bro yn gweithio gydag ysgolion i roi'r prosiect Aros a Chwarae ar waith yn Sir Gâr, Merthyr Tudful, Sir Fynwy ac Abertawe, ac mae dwy ardal arall wedi eu clustnodi. Yn dilyn y prosiect peilot, byddwn yn rhannu ein canfyddiadau ac yn diweddaru ein pecyn cymorth *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu*.



# Ymholiadau gan y cyhoedd

**Yn ogystal â'r gronfa eang o wybodaeth a ddarperir trwy ein gwefan, rydym wedi derbyn ac ymateb i amrywiaeth eang o ymholiadau dros y ffôn, trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy e-bost oddi wrth rieni, aelodau etholedig, dysgwyr, ysgolion a mudiadau bychain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**

Mae'r ymholiadau y gwnaethom ymateb iddynt trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio'n cynnwys:

- cymwysterau addas ar gyfer lleoliadau chwarae a gofal plant sydd wedi eu cofrestru gyda Arolygiaeth Gofal Cymru
- cyngor ariannu ar gyfer prynu offer chwarae a datblygu ardaloedd chwarae mewn cymunedau
- cymwysterau perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer rhedeg cynllun chwarae
- dysgwyr sydd am ymgymryd â hyfforddiant gwaith chwarae, a chymwysterau lefel 3 yn benodol
- ymholiadau ymchwil oddi wrth fyfyrwyr astudiaethau plentyndod a gwaith chwarae
- cyngor ariannu ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae
- cefnogaeth ar gyfer achub caeau chwarae ysgolion ac amseroedd chwarae
- cyngor ar lain o dir neu ddylunio gofod chwarae
- hysbysebu swyddi, yn enwedig cynlluniau chwarae haf
- llythyrau o gefnogaeth i gymunedau sy'n ymgyrchu am ardaloedd chwarae ac ar gyfer ceisiadau ariannu.



**Adolygir yr ymholiadau hyn yn rheolaidd a'u defnyddio i hysbysu ychwanegu gwybodaeth newydd i'n gwefan.**

# Cefnogwyr Chwarae Cymru

Dewch yn gefnogwr Chwarae Cymru: **www.chwarae.cymru/amdanom-ni/cefnogwch-ni**

**Mae Chwarae Cymru yn fudiad i aelodau. Cofrestrwch i Gefnogi Chwarae Cymru yn rhad ac am ddim ac ymuno â'r ymgyrch i wneud Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar, gan eiriol dros chwarae plant ar draws y wlad.**

**Yma yn Chwarae Cymru, rydym wastad yn ymdrechu i wneud Cymru'n wlad sy'n chwarae-gyfeillgar. Dyna pam ein bod eich angen chi i ymuno â ni. Mae ein haelodaeth Cefnogwr Chwarae Cymru am ddim yn agored i bob sefydliad ac unigolyn sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru. Os ydych chi'n byw y tu allan i Gymru, gallwch ddod yn Gefnogwr Rhyngwladol Chwarae Cymru – mae hwnnw am ddim hefyd.**

**Mae bod yn Gefnogwr Chwarae Cymru yn rhoi ystod o fuddiannau i chi – o ostyngiad ar brisiau ein digwyddiadau, i gael golwg gyntaf ar adnoddau newydd i gyfleoedd i gyfrannu at ein hymgyrchoedd.**

## Buddiannau i gefnogwyr

- **Gostyngiad ar brisiau ein digwyddiadau** – rydym yn trefnu digwyddiadau yn rheolaidd, a hynny ar-lein ac wyneb yn wyneb hefyd. Fel Cefnogwr, byddwch yn derbyn gostyngiad a'r brisiau, gan ei gwneud hyd yn oed yn haws i chwarae rhan weithredol ac i gysylltu gyda phobl o'r un meddwl.
- **Golwg gyntaf ar adnoddau newydd** – mae Cefnogwyr Chwarae Cymru'n cael mynediad cynnar i'r cyhoeddiadau, yr ymchwil a'r adroddiadau diweddaraf, gan eich hysbysu am y datblygiadau chwarae a gwaith chwarae diweddaraf.
- **Cyfrannu at weithgareddau a syniadau ymgyrchu** – fel Cefnogwr Chwarae Cymru, cewch gyfle i ddweud eich dweud. Gallwch ymuno â grwpiau ffocws, cymryd rhan mewn holiaduron, ac ateb cwestiynau ymchwil er mwyn helpu i wella cyfleoedd chwarae plant yn lleol ac yn genedlaethol.
- **E-fwletinau misol** – bydd ein e-fwletinau misol yn eich helpu i gadw llygad ar yr holl newyddion diweddaraf ym meysydd gwaith chwarae a chwarae. Bydd dod yn Gefnogwr yn golygu y byddwch yn derbyn y newyddion diweddaraf ar chwarae plant, i gyd mewn un lle.
- **Cael eich hysbysu am ymgynghoriadau allweddol** – chi fydd y cyntaf i glywed am ymgynghoriadau newydd a chael cyfle i ddweud eich barn wrthym. Mae'r ymgynghoriadau hyn yn ffordd wych o gyfrannu at ddatblygu Cymru sy'n chwarae-gyfeillgar.
- **Lobïo dros newid** – trwy ymuno â ni fel Cefnogwr Chwarae Cymru, gallwch ein helpu i lobïo dros newid ble bynnag mae ei angen. Mae ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn ffeithiol, yn hygyrch, ac yn sicrhau newid.
- **Enwebu a chael eich enwebu i ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru** – fel Cefnogwr gallwch enwebu a chael eich enwebu i ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru.

### Buddiannau i Gefnogwyr Rhyngwladol

Mae ein buddiannau aelodaeth i Gefnogwyr Rhyngwladol yn gyfyngedig gan mai Cymru yw ein hardal gofrestredig o fudd elusennol. Mae buddiannau i Gefnogwyr Rhyngwladol yn cynnwys:

- Golwg gyntaf ar adnoddau newydd
- E-fwletinau misol
- Hysbysiadau am ymgynghoriadau allweddol
- Cyfleoedd i lobïo dros newid.

# Cefnogaeth a gwaith eiriol

## Cymru

Bu Chwarae Cymru'n rhan o amrywiol weithgorau Cymru gyfan er mwyn sicrhau bod chwarae plant yn derbyn y statws y mae'n ei haeddu:

- Grŵp Monitro CCUHP Cymru
- Grŵp Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar
- Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar
- Cyngor Polisi Plant yng Nghymru
- Grŵp Arbenigol Plant Egnïol Iach Cymru
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adeiladu Cymru Iachach Llywodraeth Cymru – Blaenoriaethau Gweinidogol
- Grŵp Llywodraethiant Gofal Plant a Chwarae Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ac is-grwpiau cysylltiedig
- Grŵp Rhanddeiliaid Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru
- Grŵp Rhanddeiliaid Cynllun Gweithredu Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar (ECEC) Llywodraeth Cymru
- Grŵp Trawsbleidiol Y Senedd ar Blant a Theuluoedd
- Gweithgor Gofal Plant a Chwarae Arolygiaeth Gofal Cymru.

## Y DU ac yn rhyngwladol

Roeddem yn rhan hefyd o amrywiol grwpiau polisi yn y DU ac yn fyd-eang, gan fynychu cyfarfodydd sefydliadau perthnasol i sicrhau bod mentrau'r DU gyfan yn adlewyrchu datblygiad ac ymarfer gorau yng Nghymru:

- Play Safety Forum
- Children's Play Policy Forum
- Grŵp Llywio'r Diwrnod Chwarae Cenedlaethol
- Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU
- International Play Association (IPA) Cymru Wales ac IPA World
- Learning through Landscapes.

## Ymgynghoriadau

Fe wnaethom ymateb i nifer o ymgynghoriadau cenedlaethol perthnasol:

- Strategaeth Tlodi Plant Cymru
- Strwythur y diwrnod ysgol
- Cofrestriad proffesiynol y gweithlu
- Defnyddio Cyllid Segur
- Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol
- A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? (cynhaliwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg)
- Plant, pobl ifanc a'r amgylchedd adeiledig (cydlynwyd gan Bwyllgor Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU).

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd ein gwasanaethau gan:


- Academyddion a sefydliadau prifysgolion
- Swyddogion y Llywodraeth
- Aelodau o'r cyhoedd sy'n ymgyrchu i sefydlu neu warchod darpariaeth chwarae
- Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau chwarae plant – awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn ogystal â chynghorau cymuned
- Sefydliadau sy'n darparu neu'n cefnogi gwasanaethau plant – awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol
- Rhieni a gofalwyr
- Hyfforddwyr gwaith chwarae a rheolwyr gweithwyr chwarae
- Gweithwyr chwarae, gweithwyr datblygu chwarae a swyddogion datblygu chwarae
- Gweithwyr proffesiynol mewn sectorau megis gofal plant a gwaith ieuenctid, y blynyddoedd cynnar, polisi addysg, addysg bellach, gofal iechyd a chymdeithasol, iechyd y cyhoedd, cynllunio gwlad a thref
- Athrawon, penaethiaid ysgolion, llywodraethwyr a seicolegwyr addysg.

# Adolygiad ariannol – crynodeb

**Adroddiadau incwm a gwariant Chwarae Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen Mawrth 2024.**


### Cyfanswm incwm: £502,283

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £420,000 |
| Incwm arall | £32,681 |
| Grantiau eraill | £17,150 |
| Buddsoddiadau | £11,852 |
| Cyfraniadau | £10,075 |
| Cyhoeddiadau | £5,760 |
| Digwyddiadau | £4,765 |



### Cyfanswm gwariant: £516,326

| | |
|---|---|
| Polisi chwarae, cymorth ac eiriolaeth | £187,115 |
| Datblygu'r gweithlu | £180,627 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth | £148,584 |



# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol 2024-2025

**Bydd Chwarae Cymru'n parhau i weithio i hybu chwarae plant, i weithredu fel eiriolwr dros blant a'u hanghenion chwarae. Yn benodol, rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflawni'r canlynol:**

- Parhau i gefnogi darparwyr cyfleoedd chwarae i ymateb i newidiadau yn y dirwedd gymdeithasol, wleidyddol ac ariannol mewn modd chwarae-gyfeillgar.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r cerrig milltir a amlinellwyd yn yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.
- Parhau i drosglwyddo gwasanaeth cyfathrebu sydd wedi ei anelu at ein cynulleidfa eang trwy ddarparu cyhoeddiadau â ffocws penodol, postio uniongyrchol a gwefannau wedi'u diweddaru yn ogystal ag ymgysylltu trwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cyfrannu at a hysbysu eiriolaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol trwy waith prosiect ac aelodaeth o bwyllgorau a grwpiau.
- Cefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i ymgysylltu ac ymateb i bolisi cenedlaethol trwy ddigwyddiadau, hwyluso rhwydwaith a chyngor.
- Parhau i weithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (NCPHWR) i ddynodi'r hyn y mae plant yn ei ddweud am fynediad i chwarae a'r hyn hoffen nhw o ran chwarae.
- Adolygu a gweithredu *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*, ein cynllun datblygu'r gweithlu yn seiliedig ar ganfyddiadau o'r Astudiaeth i Weithlu Chwarae Cymru a gynhelir gan Brifysgol Abertawe.
- Cynnal peilot a lansio Chwarae o Safon, y fframwaith sicrhau ansawdd gwaith chwarae.
- Gweithio gyda Thimau Iechyd y Cyhoedd lleol i gytuno ar a rhannu negeseuon ynghylch chwarae plant.
- Gweithio gyda chanolfannau a gymeradwywyd i sicrhau bod trosglwyddiad cymwysterau gwaith chwarae Agored Cymru, a hyfforddiant arall, yn parhau i fod o safon ac yn ymateb i anghenion y gweithlu.
- Cynnal a chyhoeddi adroddiad Cymru-gyfan o arolygon a gwblhawyd gan blant ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o'u Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae yn 2025.
- Trosglwyddo ystod eang o ymgyrchoedd *Plentyndod Chwareus* er mwyn cynorthwyo rhieni a gofalwyr i ddarparu cyfleoedd digonol i blant chwarae gartref ac yn eu cymunedau.
- Parhau i hyrwyddo ein ffilm ddiweddaraf i ddathlu chwarae plant yng Nghymru a hyrwyddo pwysigrwydd chwarae ym mywyd pob plentyn.
- Datblygu a throsglwyddo ystod eang o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant ar gyfer gweithwyr chwarae ac eraill y mae eu gwaith yn effeithio ar blant.
- Adolygu, diweddaru a gweithredu ein Strategaeth Codi Arian er mwyn ein galluogi i drosglwyddo prosiectau ychwanegol.
- Gweithio gyda'r Starlight Children's Foundation i gefnogi'r sector chwarae iechyd yng Nghymru.
- Arwain yr adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae, ar ran Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU.
- Gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i'w cynorthwyo i drosglwyddo hyfforddiant gwaith chwarae wedi ei ardystio.

**Er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu datblygu a'u trosglwyddo mor effeithlon â phosibl, byddwn yn adolygu a datblygu cynllun gweithredol Chwarae Cymru'n barhaus.**

# Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru – llywodraethu

Mae gennym Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n goruchwylio rhedeg Chwarae Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein amcanion mewn modd effeithiol ac effeithlon yn unol â'r gyfraith. Ceir hefyd nifer o Sylwedyddion i'r Bwrdd sy'n cefnogi'r Ymddiriedolwyr ond sydd yn ddibleidlais. Caiff ein Ymddiriedolwyr eu hethol gan ein haelodau, neu eu cyfethol i gynrychioli maes arbenigedd penodol.

(ym mis Mawrth 2024)


**Dr Rhian Barrance**
Prifysgol Caerdydd

**Dr Anne Crowley**

**Matluba Khan**
Prifysgol Caerdydd

**Malcolm King OBE**

**Yr Athro Ronan Lyons**
Prifysgol Abertawe

**Keith Towler** (Cadeirydd)

**Dr Jacky Tyrie**
Prifysgol Abertawe

**Elspeth Webb**

**Hanna Hersi**

## Mudiadau sy'n sylwedyddion

**Catherine Davies**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Hugh Russell**
Plant yng Nghymru


# Tîm Chwarae Cymru

(ym mis Mawrth 2024)

**Danielle Beattie**
Rheolwr Gweithrediadau

**Diana Wilczyńska Fiuk**
Cynorthwyydd Gweinyddol a Digwyddiadau

**Mike Greenaway**
Cyfarwyddwr

**Martin King-Sheard**
Swyddog Datblygu'r Gweithlu

**Marianne Mannello**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi, Cymorth ac Eiriolaeth

**Ruth O'Donoghue**
Swyddog Cyllid

**Angharad Wyn Jones**
Rheolwr Cyfathrebu

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru Mai 2025